# Asesiad o’r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh)

Asesiad Effaith integredig yw hwn, sydd â'r nod o sicrhau bod Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud penderfyniadau sy'n deg, yn ystyried tystiolaeth berthnasol, ac yn ceisio sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau. **Dylid defnyddio AEDCh i lywio camau cyntaf gwneud penderfyniadau, yn ystod y cam cysyniad, nid pan fo penderfyniad wedi ei wneud eisoes, neu ar y pwynt pryd na ellir dylanwadu arno**. Mae'r asesiad effaith hwn yn ystyried ein cyfrifoldebau deddfwriaethol o dan:

- Deddf Cydraddoldeb (2010), gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (2015)
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ni fwriedir i'r broses AEDCh atal penderfyniadau rhag cael eu gwneud, ond sicrhau ein bod wedi ystyried eu heffaith bosibl. Mae AEDCh hefyd yn ein helpu i ganolbwyntio ar sut y gallwn leihau unrhyw effeithiau negyddol, ac mae'n rhoi tystiolaeth i ni ein bod wedi cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol.

***Am gymorth i gwblhau eich AEDCh, cysylltwch â'r Tîm Cymunedau Cysylltiedig***

## Beth yw ystyr Tegwch?

Mae Comisiwn Tegwch Casnewydd yn gorff annibynnol sy'n cynghori'r cyngor ar y defnydd gorau o adnoddau a phwerau i sicrhau'r canlyniadau tecaf i bobl leol. Mae'r Comisiwn Tegwch wedi sefydlu pedair o **Egwyddorion Tegwch** y dylid eu hystyried fel rhan o unrhyw benderfyniadau y mae'r cyngor yn eu gwneud – mae'r cwestiynau isod yn ddefnyddiol i'w hystyried cyn i chi ddechrau eich AEDCh.

| | |
|---|---|
| **Uniondeb** | A yw pobl yn cael eu trin mewn ffordd gyson, tra'n cydnabod eu gwahaniaethau (er enghraifft, angen, rhwystrau rhag gallu cyrchu gwasanaethau)? |
| | A fydd y bwlch rhwng y rhai sydd â mwy, a'r rhai sydd â llai yn cael ei leihau? |
| | A ystyriwyd buddiannau gwahanol grwpiau (gan gynnwys cymunedau lleiafrifol neu ddifreintiedig)? |
| **Blaenoriaeth** | A yw anghenion y rhai mwyaf difreintiedig ac agored i niwed ar draws y ddinas wedi cael blaenoriaeth? |
| | A ydych wedi ystyried canlyniadau anuniongyrchol posibl i gymunedau lleiafrifol / difreintiedig pan fo blaenoriaethau eraill yn cyfeirio penderfyniadau? |
| **Cynhwysiant** | A fydd lleisiau pawb y mae eich penderfyniad yn effeithio arnynt yn cael eu clywed? |
| | A yw pobl yn gallu cymryd rhan a siapio gwasanaeth, yn ogystal â'i dderbyn? |
| | A ydych wedi ystyried effaith eich penderfyniad ar y berthynas rhwng cymunedau, a'r mannau y maent yn eu rhannu? |

| | |
|---|---|
| **Cyfathrebu** | A yw penderfyniadau'n cael eu gwneud yn dryloyw ac yn gyson? |
| | Sut y caiff penderfyniadau eu cyfathrebu i bobl a gaiff eu heffeithio mewn ffordd glir, gyda'r cyfle am adborth? |

# Rhan 1: Cadarnhau pwy ydych yn siarad ag ef

| | |
|---|---|
| Enw’r person sy’n cwblhau’r AEDCh | Richard Sexty |
| Rôl y person sy'n cwblhau'r AEDCh | **Rheolwr Trawsnewid Addysg** |
| Dyddiad cwblhau | **11 Rhagfyr 2023** |
| Pennaeth Gwasanaeth sydd wedi cymeradwyo'r AEDCh hwn | **Sarah Morgan** |

1. **Beth sy'n cael ei asesu?** *(Cliciwch ddwywaith ar y blwch(blychau) perthnasol (X) a dewiswch 'checked' fel y bo'n briodol)*

☒ Polisïau, arferion neu weithdrefnau newydd neu ddiwygiedig (sy'n addasu darparu gwasanaethau neu arferion cyflogaeth)

☒ Adolygu gwasanaeth neu ad-drefnu cynigion sy'n effeithio ar y gymuned a/neu staff

☐ Cynigion effeithlonrwydd neu arbed

☐ Pennu dyraniadau cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol newydd a chynllunio ariannol strategol

☒ Penderfyniadau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, cyflogeion neu'r gymuned ehangach gan gynnwys comisiynu / datgomisiynu neu ddiwygio gwasanaethau

☐ Cynigion prosiect newydd sy'n effeithio ar staff, cymunedau neu fynediad i'r amgylchedd adeiledig

☐ Digwyddiadau cyhoeddus

☐ Gweithredu Strategaeth / Cynlluniau / Deddfwriaeth Genedlaethol yn lleol

☐ Cyfarwyddeb a bwriad strategol, gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

☒ Cynlluniau tymor canolig i hirdymor (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, cynlluniau darparu gwasanaethau a chynlluniau gwella)

☐ Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)

☐ Penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr

Penderfyniadau sy'n effeithio ar allu (gan gynnwys partneriaid allanol) i gynnig cyfleoedd a gwasanaethau Cymraeg

☐ Arall *esboniwch yn y blwch isod:*

**2. Disgrifiwch nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig cyffredinol eich penderfyniad**

Y canlyniad a fwriedir yw cyflwyno cynnig statudol i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar o fis Medi 2024, yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol.

Y cynnig yw cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn raddol i 2.5 dosbarth mynediad o fis Medi 2024.

Ar hyn o bryd mae Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn ysgol gymunedol a gynhelir cyfrwng Saesneg 2 ddosbarth mynediad sy'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae gan yr ysgol Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) o 60 a chyfanswm capasiti o 420. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cynnwys Meithrinfa 40 lle sy'n gallu darparu ar gyfer 80 o ddisgyblion dros naill ai sesiwn fore neu brynhawn.

Ym mis Ionawr 2023, roedd yr ysgol yn gweithredu ar 89% o gyfanswm y capasiti sydd ar gael.  Mae disgwyl i'r galw am leoedd disgyblion yn yr ardal gynyddu yn dilyn datblygiadau tai newydd sydd wedi'u sefydlu gan gynnwys 2 ddatblygiad mawr wedi'u cwblhau gyda dros 750 o anheddau; mae un arall yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd, a fydd yn cynnwys dros 500 o anheddau. Rhagwelir y bydd maint y datblygiad yn yr ardal yn arwain at bwysau sylweddol ar argaeledd lleoedd mewn ysgolion gyda dim ond 43 (2.1%) o leoedd ysgol ar gael yng nghlwstwr John Frost, mae hyn yn sylweddol is nag argymhelliad Llywodraeth Cymru o 10% o leoedd gwag mewn ysgolion.

Dyblodd nifer y lleoedd gwag sydd ar gael yn yr ysgol rhwng 2022 a 2023 oherwydd derbyn nifer isel o ddisgyblion i'r dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022. Mae'r nifer isel hwn o ganlyniad i gyfradd genedigaethau anarferol o isel yn y flwyddyn eni gyfatebol. Derbyniadau cyfartalog dosbarth Derbyn o'i gymharu â genedigaethau mewn dalgylch yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar yw 51.7%. Dyrannwyd pob lle Derbyn ar gyfer Medi 2023 gyda nifer fach o geisiadau wedi'u gwrthod.

Cynigir caniatáu i Ysgol Gynradd Parc Tredegar gynyddu ei NDC o 60 i 75 fesul grŵp blwyddyn a chynyddu cyfanswm ei chapasiti o 420 i 525. Ni fyddai'r capasiti Meithrin yn newid o dan y cynnig. Mae digon o le ar safle'r ysgol i ddarparu ar gyfer yr ehangu ac ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar weddill yr ysgol.

Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig i gael barn rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd ehangach ynghylch y cynnig. Paratowyd adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd ac fe'i cyhoeddir gyda'r AEDCh wedi'i ddiweddaru.

**3. Pwy yw'r prif randdeiliaid a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad a pha ddata sydd gennych arnynt? Ystyriwch gymunedau o ran lle (pobl sy'n byw yn yr un ardal ddaearyddol) a chymunedau o ddiddordeb (pobl sy'n rhannu nodweddion penodol ond sydd efallai'n byw mewn gwahanol ardaloedd daearyddol). Gall rhanddeiliaid gynnwys preswylwyr, busnesau lleol, grwpiau cymunedol, staff neu bartneriaid.**

Y prif randdeiliaid yw:

- Rhieni a theuluoedd disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Parc Tredegar ar hyn o bryd;
- Athrawon a staff Ysgol Gynradd Parc Tredegar;
- Teuluoedd â phlant cyn oed ysgol yn ardal Parc Tredegar a Maerun.
- Teuluoedd â phlant sy'n symud i mewn i ardal Parc Tredegar a Maerun.

Mae'r Cod Statudol yn amlinellu rhanddeiliaid allweddol, fodd bynnag, nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ac mae'r Cyngor wedi nodi ac ychwanegu at hyn o ganlyniad i adborth a dderbyniwyd yn sgil cynigion blaenorol. Anfonir gwahoddiad i ymgysylltu â'r broses ymgynghori at y grwpiau rhanddeiliaid canlynol:

- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r holl ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt neu y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt;
- Disgyblion sy'n mynychu'r holl ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt neu y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt;
- Aelodau o staff a gyflogir ar hyn o bryd gan yr holl ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt neu y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt;
- Awdurdodau lleol cyfagos ar draws ardal Consortiwm De-ddwyrain Cymru;
- Pennaeth a Chorff Llywodraethu pob ysgol yng Nghasnewydd;
- Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;
- Pob Cyngor Cymuned yng Nghasnewydd;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau'r Senedd (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol sy'n destun y cynnig;
- Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau trafnidiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Trefynwy;
- Yr Archesgobaeth Gatholig;

- Estyn;
- Undebau llafur athrawon a staff sy’n cynrychioli athrawon a staff yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar;
- Partneriaeth Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent;
- Heddlu Gwent;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Serennu Casnewydd;
- SNAP Cymru;
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent;
- Gwasanaethau Ataliol;

Bydd ymgynghoriad gyda grwpiau rhanddeiliaid hefyd yn cynnwys disgyblion yr ysgolion y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y gallai’r cynnig effeithio arnynt, trwy drefniant gyda thimau arwain ysgolion.

Mae'r rhanddeiliaid allweddol yn debygol o fod yn byw neu'n defnyddio gwasanaethau yn ardal Parc Tredegar a Maerun o Gasnewydd. Y cynnig yw cynyddu'r capasiti yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar. Mae’r ysgol hon wedi’i rhestru fel ysgol yr effeithir arni. Lleolir Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn ward Parc Tredegar a Maerun.

*Mae'r wybodaeth a ddarperir isod yn seiliedig ar wybodaeth o broffiliau lles cymunedol Casnewydd. Cynhyrchwyd chwe phroffil lles cymunedol lleol ar gyfer 2021 a gyhoeddwyd ar 5 Mai 2022 cyn i'r newidiadau i'r ward gael eu gweithredu yn etholiadau’r cynghorau lleol yn 2022.*

Mae ward Parc Tredegar yn cynrychioli tua 3.16% o holl boblogaeth Casnewydd. Mae'r tabl isod yn dangos cyfansoddiad poblogaeth ward Parc Tredegar yn erbyn poblogaeth Casnewydd gyfan gan ddefnyddio data amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020 o broffiliau ward Casnewydd yn Un. Mae'r data'n dangos bod gan yr ardal gyfran uwch o breswylwyr 0 i 15 oed ac 16 i 64 oed na'r ffigwr ledled Casnewydd. Mae gan ward Parc Tredegar arwynebedd o 1.79 $km^2$, dwysedd y boblogaeth yn y ward yw 2,763 o bobl fesul cilomedr$^2$ sy'n cael ei raddio fel y 10$^{fed}$ mwyaf poblog o 20 ward Casnewydd.

| (Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2020) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | **0 i 15 oed** | **16 i 64 oed** | **65+ oed** |
| **Parc Tredegar** | 4,945 | 1,208 (24%) | 3,066 (62%) | 671 (14%) |
| **Casnewydd** | 156,447 | 32,050 (21%) | 97,743 (62%) | 26,654 (17%) |

Mae'r boblogaeth yn ward Parc Tredegar a'r wardiau cyfagos yn Ne-orllewin Casnewydd (Maerun a Gaer) wedi tyfu'n gyson dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae holl boblogaeth Casnewydd hefyd wedi tyfu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd diwethaf.

| Poblogaeth 2001 – 2020 (Ffigyrau Cyfrifiad 2001 – 2011) (Amcangyfrifon Poblogaeth canol blwyddyn – 2020) | | | |
|---|---|---|---|
| | **2001** | **2011** | **2020** |
| **Gaer** | 8,568 | 8,721 | 9,133 |
| **Maerun** | 4,245 | 6,270 | 6,449 |
| **Parc Tredegar** | 3,387 | 4,421 | 4,945 |
| **Casnewydd** | 137,011 | 145,736 | 156,447 |

Mae tua 5% o'r garfan gynradd yng Nghasnewydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgolion cynradd Cymraeg. Mae 10.5% o'r garfan gynradd yng Nghasnewydd yn mynychu ysgolion cynradd Ffydd. Byddem yn disgwyl gweld canrannau tebyg o deuluoedd yn dewis y cyfryngau addysg hyn o ward Parc Tredegar a Maerun. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Cyngor Dinas Casnewydd wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar ac yn cynnig sefydlu mwy o ddarpariaeth Gymraeg yng Nghasnewydd rhwng 2022-2032 a'i nod yw cynyddu canran y disgyblion cynradd mewn addysg Gymraeg i 12%.

Mae'r tabl isod yn dangos bod gostyngiad bach wedi bod yn y 5 mlynedd diwethaf o ran nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYADd) yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar. Mae ffigyrau PYADd Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn sylweddol uwch na chyfartaledd Casnewydd a Chymru.

| Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| **Ysgol Gynradd Parc Tredegar** | 31.0% | 30.4% | 29.4% | 29.3% | 30.6% |
| **Casnewydd** | 19.2% | 19.3% | 19.6% | 21.5% | 22.4% |
| **Cymru** | 18.4% | 18.5% | 19.3% | 21.3% | 23.0% |

Lleolir Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn ward Parc Tredegar a Maerun. Mae data PYADd yn cyd-fynd â data proffil y ward, mae Ysgol Gynradd Parc Tredegar wedi'i lleoli o fewn AGEHI Parc Tredegar 2 sy'n un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghasnewydd ac sydd ymhlith y 10% uchaf o wardiau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae Parc Tredegar 1 ymhlith y 40% uchaf o wardiau mwyaf difreintiedig Cymru, sy'n golygu mai Parc Tredegar yw un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghasnewydd.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y plant sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar.

| Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| **Ysgol Gynradd Parc Tredegar** | 6.8% | 2.9% | 5.5% | 7.5% | 7.4% |
| **Casnewydd** | 18.1% | 17.8% | 18.0% | 17.4% | 16.9% |
| **Cymru** | 6.2% | 6.0% | 6.1% | 6.0% | 6.1% |

Mae cyfran y disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt wedi tyfu ychydig mewn 5 mlynedd yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar, er bod cyfran y disgyblion SIY yn parhau i fod yn sylweddol is na chyfartaledd Casnewydd.

| Disgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| **Ysgol Gynradd Parc Tredegar** | 16.6% | 17.3% | 17.8% | 17.7% | 18% |
| **Casnewydd** | 26.7% | 27.5% | 28.1% | 28.3% | 29.2% |
| **Cymru** | 12.2% | 12.5% | 12.7% | 12.9% | 13.3% |

Mae cyfran y Disgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi tyfu yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar dros 5 mlynedd, ond fel canran, mae poblogaeth yr ysgol yn parhau i fod yn sylweddol is na chyfartaledd Casnewydd.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori ffurfiol, mae Adroddiad ar yr Ymgynghoriad wedi cael ei baratoi a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd, a bydd yn cael ei ddefnyddio i benderfynu cyhoeddi hysbysiad statudol neu beidio. Mae cyhoeddi hysbysiad statudol yn galluogi rhanddeiliaid i gofnodi gwrthwynebiadau ffurfiol i'r cynnig.

# Rhan 2: Ymgysylltu

Wrth gwblhau'r adran hon, mae angen i chi ystyried a oes gennych ddigon o wybodaeth am farn a phrofiadau pobl y bydd eich penderfyniad yn effeithio arnynt. Os na wnewch hynny, efallai y bydd angen i chi ymgymryd â chyfnod o ymgysylltu/ ymgynghori cyn parhau. Mae AEDCh yn ddogfen fyw, felly gellir ei diweddaru gyda chanfyddiadau'r ymgynghoriad, a'i diwygio yn ôl yr angen yn ystod y broses o wneud penderfyniadau.

Mae gan y cyngor ddyletswydd i ymgynghori ac ymgysylltu â phobl a allai brofi anghydraddoldebau o ganlyniad i'ch penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys pobl **sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig** (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) a phobl sydd **â phrofiad bywyd o anfantais economaidd-gymdeithasol**. Mae Addewid Ieuenctid y cyngor hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau y **gwrandewir ar bob person ifanc yng Nghasnewydd a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt**.

Mae gan y cyngor ddyletswydd hefyd i sicrhau bod unrhyw ymgynghoriad ar gael yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg), ac efallai yr hoffech ystyried unrhyw ieithoedd cymunedol eraill a siaredir gan bobl a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad. Isod ceir rhai cwestiynau y dylid eu cynnwys mewn unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus sy'n ymwneud â phenderfyniad a allai effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd:

1. A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?
2. Os ydych o'r farn y caiff effaith negyddol, pa gamau y gallem eu cymryd i leihau neu osgoi hyn a gwella'r effeithiau cadarnhaol?
3. A ydych yn credu y bydd y penderfyniad/ polisi arfaethedig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**1. Sut ydych chi wedi ymgysylltu â phobl a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad (y rhanddeiliaid rydych chi wedi'u nodi)?**

Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.

Fe wnaeth y cyfnod ymgynghori ffurfiol statudol bara 7 wythnos rhwng 25 Medi a 12 Tachwedd gan roi cyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau sydd wedi cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad.

Cafodd gwahoddiad i gymryd rhan yn y broses ymgynghori ei e-bostio at y rhestr rhanddeiliaid a nodwyd yn flaenorol, gan gynnwys rhieni/ gofalwyr, disgyblion a staff yr ysgol(ion) yr effeithir arni/ynt. Cafodd negeseuon e-bost rhanddeiliaid hefyd eu hanfon at bartneriaid addysg Cyngor Dinas Casnewydd. Cafodd y cynnig ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Cafodd platfformau cyfryngau cymdeithasol megis X (Twitter gynt) a Facebook hefyd eu defnyddio i rannu gwybodaeth am y cynnig.

Roedd y dogfennau ymgynghori yn cynnwys ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad y gellid ei hanfon i'r cyfeiriad a ddarparwyd, drwy'r post neu dros e-bost. Gellid cyflwyno'r ymatebion ar-lein hefyd o'r ddolen a ddarparwyd ar dudalennau gwe ad-drefnu ysgolion y Cyngor. Gellid cyflwyno cwestiynau a phryderon yn ysgrifenedig hefyd drwy'r post neu drwy e-bost at Gyngor Dinas Casnewydd.

Cynhyrchwyd yr holl ddogfennau ymgynghori yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg a gellid cyflwyno cwestiynau a phryderon yn Gymraeg neu Saesneg a byddent yn derbyn ateb yn yr un iaith.

Cafodd dolen i'r dogfennau canlynol eu dosbarthu i randdeiliaid ac ysgolion:

- Prif ddogfen ymgynghori
- Fersiwn Crynodeb Bob Dydd i Blant a Phobl Ifanc o'r ddogfen ymgynghori.

Roedd copïau digidol o'r 2 dogfen ar gael ar-lein ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd ar https://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx. Gellid hefyd ofyn am gopïau caled drwy anfon e-bost i school.reorg@newport.gov.uk neu drwy ffonio 01633 656656.

Cynhaliwyd dwy sesiwn galw heibio yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar. Roedd swyddogion y Cyngor wrth law i esbonio'r cynigion yn fanylach ac ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon a godwyd gan y cyhoedd. Mae sesiwn Llais y Disgybl hefyd wedi'i chynnal yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a’r Blynyddoedd Cynnar Cyngor Dinas Casnewydd yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â’r cynnig ai peidio. Os penderfynir bwrw ymlaen, caiff hysbysiad statudol ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a chaiff hysbysiadau eu rhoi ar y gatiau yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar. Bydd cyfnod yr hysbysiad statudol yn para am 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, ac mae’n galluogi pobl i fynegi eu barn o ran cefnogi neu wrthwynebu'r cynigion. Os na cheir gwrthwynebiadau ar ôl cyhoeddi’r hysbysiad statudol, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a’r Blynyddoedd Cynnar Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch bwrw ymlaen neu beidio. Os derbynnir unrhyw wrthwynebiadau ac na chânt eu tynnu'n ôl wedyn yn ystod y cyfnod hysbysu hwn, Cabinet y Cyngor fydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol.


**2. Beth ydych chi'n ei wybod am farn neu brofiadau pobl y gallai eich penderfyniad effeithio arnynt?**

Y bobl yr effeithir arnynt gan y penderfyniad yw rhieni/ gofalwyr, disgyblion a staff Ysgol Gynradd Parc Tredegar a theuluoedd ifanc yn ward Parc Tredegar a Maerun.

Mae'r ffigurau PYADd a SIY ar gyfer yr ysgol yn dangos bod gan gymuned yr ysgol gyfran gymharol uchel o aelwydydd incwm isel ac mae'r mwyafrif helaeth yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Mae'r ffigurau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar gyfer cymuned yr ysgol wedi cynyddu rhywfaint dros y 5 mlynedd diwethaf ond mae'r ffigurau'n dangos bod cymuned yr ysgol o ethnigrwydd Gwyn Prydeinig yn bennaf.

Mae disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Parc Tredegar a staff yr ysgol yn rhanddeiliaid allweddol yn y cynnig hwn am y gallent weld newidiadau i strwythur eu dosbarthiadau. Yn Ionawr 2023 roedd 372 o ddisgyblion ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn y dosbarthiadau Derbyn – Blwyddyn 6. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu yn dilyn derbyniadau i’r Dosbarth Derbyn ar gyfer Medi 2023, pan gafodd pob un o'r 60 lle oedd ar gael eu llenwi.

Dangosir cyfraddau genedigaethau'r dalgylch isod, sy'n awgrymu y bydd niferoedd dosbarthiadau Derbyn yn dychwelyd i'r arfer o fis Medi 2023.




Derbyniadau cyfartalog lleoedd dosbarth Derbyn o'i gymharu â genedigaethau mewn dalgylch yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar yw 51.7%. Mae'r tabl isod yn dangos cyfradd derbyniadau blwyddyn unigol ar gyfer disgyblion dosbarth Derbyn.

**Tabl 5: Ysgol Gynradd Parc Tredegar**
**Cyfraddau Derbyn ar gyfer y Dosbarth Derbyn (Ionawr yw'r dyddiadau CYBLD)**

| 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 47.20% | 51.75% | 52.48% | 46.02% | 56.07% | 56.73% | 51.67% |

Rhoddodd y cyfnod ymgynghori gyfle i'r cyngor gael barn y bobl y gallai'r cynnig effeithio arnynt.

Cafwyd 27 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd tri o'r rhain yn ymatebion ysgrifenedig gan Estyn, Comisiynydd y Gymraeg ac Undeb Llafur Athrawon. Cyflwynwyd gweddill yr ymatebion gan drigolion, rhieni a disgyblion lleol yn yr ysgol. Mae'r ymatebion i'r cynnig wedi bod yn gymysg. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i ddarparu lleoedd ychwanegol, ond roedd rhai yn codi pryderon ynghylch mynediad, traffig a pharcio, a gormod o ddisgyblion yn yr ysgol a fyddai'n cael effaith ar ddysgu a lles disgyblion.

Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr yn awgrymu buddsoddi'r arian mewn addysg Gymraeg yn hytrach na sefydlu ysgol newydd.

Darperir crynodeb llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad.

# Rhan 3: Asesu

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i chi asesu effaith bosibl eich penderfyniad ar amrywiaeth o grwpiau a allai brofi anfanteision penodol. Dylai eich asesiad gael ei gefnogi gan dystiolaeth – naill ai o'ch ymgysylltiad / ymgynghoriad eich hun, ymgysylltu tebyg neu flaenorol, yr hyn yr ydych eisoes yn ei wybod am y bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaeth, neu o ffynonellau gwybodaeth lleol a chenedlaethol.

Mae dogfennau defnyddiol sy'n nodi gwybodaeth am sut mae anghydraddoldebau yn effeithio ar gymunedau yn cynnwys Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – A yw Cymru'n Decach? ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned COVID-19gan y cyngor. Efallai y bydd eich penderfyniad yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol – os felly, rhowch groes yn y ddau flwch.

## 1. Effaith ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig

Caiff Nodweddion Gwarchodedig eu diffinio o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a disgrifiant grwpiau o bobl sy'n cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu, naill ai yn y gweithle, neu drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau. Rhaid i'r cyngor ystyried sut y gallai penderfyniadau effeithio ar bobl yn wahanol oherwydd nodwedd warchodedig, a sut y gellid lleihau unrhyw effaith negyddol. Gellir dod o hyd i ganllawiau cenedlaethol ar asesu effeithiau cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yma. Gallwch hefyd gael cyngor pellach ac enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol a negyddol yma.

| Nodwedd Warchodedig | Effaith: Cadarnhaol | Negyddol | Nid y naill na'r llall | Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adrannau isod, gan ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod yn rhaid i'r cyngor:<br><br>1. Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws gwahanol grwpiau<br>2. Hyrwyddo cydlyniant cymunedol<br>3. Helpu i gael gwared ar wahaniaethu/ aflonyddu/ erlid anghyfreithlon |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Oedran** | ☒ | ☐ | ☐ | Bydd y cynnig yn cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar gan 105 o leoedd o 420 i 525 o fis Medi 2024. Ym mis Ionawr 2023, roedd yr ysgol yn gweithredu ar 89% o gyfanswm y capasiti sydd ar gael. Mae disgwyl i'r galw am leoedd disgyblion yn yr ysgol gynyddu gan fod y gyfradd genedigaethau wedi codi ers hynny ac mae niferoedd dosbarthiadau Derbyn wedi dychwelyd i'r arfer o fis Medi 2023. Cefnogir hyn gan ddata derbyniadau ysgolion sy'n dangos bod pob un o'r 60 o leoedd dosbarth Derbyn wedi'u dyrannu ar gyfer Medi 2023, gyda nifer fach o geisiadau wedi'u gwrthod.<br><br>Mae cynyddu capasiti'r ysgol yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant lleol yn cael lleoedd yn ysgol gynradd Parc Tredegar, bydd y cynnydd mewn lleoedd yn agored i bawb yng Nghasnewydd a thu allan i Gasnewydd wneud cais amdanynt, gyda'r lleoedd yn cael eu dyrannu trwy feini prawf gordanysgrifio'r |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith: | | | Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adrannau isod, gan ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod yn rhaid i'r cyngor:<br><br>1. Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws gwahanol grwpiau<br>2. Hyrwyddo cydlyniant cymunedol<br>3. Helpu i gael gwared ar wahaniaethu/ aflonyddu/ erlid anghyfreithlon |
|---|---|---|---|---|
| | **Cadarnhaol** | **Negyddol** | **Nid y naill na'r llall** | |
| | | | | Cyngor os daw mwy o geisiadau i law na'r lleoedd sydd ar gael. Amlinellir y meini prawf gordanysgrifio yn y Polisi Derbyn i Ysgolion. |
| | | | | |
| **Anabledd** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. Mae'r ysgol yn gynhwysol ac yn hygyrch i ddisgyblion ag anghenion gweledol a symudedd. |
| | | | | |
| **Ailbennu Rhywedd** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Priodas neu bartneriaeth sifil** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Beichiogrwydd neu famolaeth** | ☒ | ☐ | ☐ | Mae'r cynnig yn ceisio sefydlu mwy o leoedd ysgol yn yr ardal leol. Felly, gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar deuluoedd sydd â phlant a/neu sy'n bwriadu cael plant yn yr ardal. |
| | | | | |
| **Hil** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Crefydd neu Gred neu ddiffyg cred** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Rhyw** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith: Cadarnhaol | Negyddol | Nid y naill na'r llall | **Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adrannau isod, gan ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod yn rhaid i'r cyngor:**<br><br>1. Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws gwahanol grwpiau<br>2. Hyrwyddo cydlyniant cymunedol<br>3. Helpu i gael gwared ar wahaniaethu/ aflonyddu/ erlid anghyfreithlon |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |

## 2. Effaith ar y Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) yn nodi bod yn rhaid i'r cyngor ystyried yr effeithiau (cadarnhaol a negyddol) ar y Gymraeg ar gyfer pob penderfyniad polisi. Am arweiniad pellach ar ystyriaethau'r Gymraeg gweler yma.

| | Effaith: Cadarnhaol | Negyddol | Nid y naill na'r llall | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Y Gymraeg** | ☐ | ☐ | ☒ | Bydd y cynnydd cynyddrannol yng nghapasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar, sy'n ysgol cyfrwng Saesneg, o 15 lle y flwyddyn, yn lleihau canran y lleoedd cyfrwng Cymraeg a gynigir fel cyfran o holl leoedd yr ardal dros dro, am un flwyddyn academaidd. Fodd bynnag, ni fydd yn cael unrhyw effaith ar argaeledd nifer ddigonol o leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i alluogi twf parhaus yn y niferoedd sy'n cael mynediad at ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â CSCA y Cyngor. |

| | Effaith: | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cadarnha | Negyddol | Nid y naill na'r llall | |

Tabl 1: Cyfran y lleoedd sydd ar gael fesul blwyddyn academaidd fesul math o gategori ysgol yn nalgylch Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli

| Blwyddyn Academaidd | 21/22 | | 22/23 | | 23/24 | | 24/25 | | 25/26 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o Ysgol** | **NDC** | **% Cyfran** | **NDC** | **% Cyfran** | **NDC** | **% Cyfran** | **NDC** | **% Cyfran** | **NDC** | **% Cyfran** |
| **EM** | 461 | 75.45% | 461 | 75.45% | 461 | 75.45% | 488 | 76.49% | 488 | 73.05% |
| **Ffydd** | 120 | 19.64% | 120 | 19.64% | 120 | 19.64% | 120 | 18.81% | 120 | 17.96% |
| **CC** | 30 | 4.91% | 30 | 4.91% | 30 | 4.91% | 30 | 4.70% | 60 | 8.98% |
| **Cyfanswm** | 611 | 100.00% | 611 | 100.00% | 611 | 100.00% | 638 | 100.00% | 668 | 100.00% |

Agorodd 4edd ysgol gynradd Gymraeg Cyngor Dinas Casnewydd, sef Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, ym mis Medi 2021, fel egin ysgol yn ei lleoliad dros dro yng Nghaerllion. Ar hyn o bryd mae 90 o leoedd cynradd oedran statudol ar gael ar gyfer 2023/24 ar draws dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Roedd gan yr ysgol 28 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Medi 2023 gan adael 69% o leoedd gwag dros ben. Mae disgwyl i'r ysgol adleoli i'w safle parhaol unwaith y bydd adeilad Ysgol Gynradd Pilgwenlli ar Capel Crescent yn cael ei adael ym mlwyddyn academaidd 2024-25. Cynigir hefyd i gynyddu nifer derbyn yr ysgol hon i 60 bryd hynny.

Mae dalgylch Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn cwmpasu ardal fawr o Gasnewydd sy'n ymestyn o afon Wysg tua'r gorllewin i'r ffin â Chaerdydd ac i'r gogledd-orllewin i'r ffin â Chaerffili. Mae ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Casnewydd, Ysgol Gyfun Gwent Is Coed hefyd wedi'i lleoli yn yr ardal hon. Mae dalgylch Ysgol Nant Gwenlli yn cynnwys wardiau Parc Tredegar a Maerun, Gaer, Stow Hill, Pilgwenlli a'r Graig. Mae lleoliad dros dro Ysgol Nant Gwenlli yng Nghaerllion y tu allan i ddalgylch yr ysgol ei hun, ac er bod trafnidiaeth am ddim yn cael ei ddarparu, cydnabyddir bod y trefniant hwn yn debygol o effeithio ar y nifer sy'n gwneud cais am leoedd yn yr ysgol. Y bwriad gwreiddiol oedd i'r ysgol symud i Bilgwenlli ym mis Medi 2023, ond mae oedi sylweddol wedi bod wrth sicrhau tir i adleoli ysgol Gynradd Pilgwenlli, sy'n golygu na fydd hyn yn bosibl tan flwyddyn academaidd 2024-25. Mae lle yn y cyfleuster dros dro ar gyfer tri dosbarth o 30 o ddisgyblion, sef cyfanswm o 90 o ddisgyblion ynghyd â dosbarth meithrin.

| | Effaith: | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cadarnha | Negyddol | Nid y naill na'r llall | |

Cydnabyddir y bydd rhai aelwydydd yn byw o fewn pellter cerdded hawdd i ysgol cyfrwng Saesneg, ond yn bellach o Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. Bydd rhai o'r rhain yn byw o fewn 2 filltir i ysgol ddalgylch cyfrwng Cymraeg ac felly ddim yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol wedi'i ariannu. Bydd y cymhelliant hwn i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei wrthbwyso gan ein hymgyrch hyrwyddo a fydd yn tynnu sylw at fanteision amrywiol addysg cyfrwng Cymraeg i deuluoedd.

Mae'r tabl (2) isod yn dangos nifer y lleoedd dosbarth Derbyn sydd ar gael yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ym mis Ionawr 2022 ac Ionawr 2023, o'i gymharu â'r ysgolion cyfrwng Saesneg yng nghlwstwr Ysgol John Frost.

Tabl 2: Y lleoedd Dosbarth Derbyn sydd ar gael 2022-2023

| | | **Ionawr 2022** | | | **Ionawr 2023** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Capasiti | NAG | Ar gael | % Ar gael | NAG | Ar gael | % Ar gael |
| Ysgolion Clwstwr John Frost | 341 | 334 | **7** | 2.05 | 306 | **35** | 10.26 |
| YG Nant Gwenlli | 30 | 6 | **24** | 80 | 8 | **22** | 73.33 |

Mae Tabl 2 yn dangos bod nifer y lleoedd Derbyn heb eu llenwi wedi cynyddu yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg o 2022 i 2023, tra bod nifer y lleoedd a gymerwyd yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli wedi cynyddu.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod 91 o leoedd cyfrwng Saesneg ar gael yn Ionawr 2023 ar draws ysgolion cynradd Clwstwr John Frost. Mae hyn yn cyfateb i 3.8%. Bryd hynny roedd 47 lle ar gael yn Ysgol Nant Gwenlli.

| | Effaith: | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cadarnha | Negyddol | Nid y naill na'r llall | |

| Tabl 3: Targed 10 Mlynedd CSCA ar gyfer cohort Derbyn Canran cyfrwng Cymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2022 - 2023** | | **2023 - 2024** | | **2024 - 2025** | | **2025 - 2026** | | **2026 - 2027** | |
| 116* | 6.10% | 129** | 6.60% | 150 | 7.60% | 160 | 8.10% | 171 | 8.60% |
| **2027 - 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 - 2032** | |
| 180 | 9.20% | 193 | 9.80% | 193 | 10.40% | Dd/G | 11.10% | Dd/G | 11.10% |
| O 2024-25 ymlaen, cyfrifwyd niferoedd trwy gymhwyso'r targed % i amcanestyniadau disgyblion CDC.<br>*% wedi'i gymhwyso i rif Derbyn CYBLD 2023.<br>**% wedi'i gymhwyso i amcangyfrif o'r garfan yn seiliedig ar leoedd Derbyn a ddyrannwyd fis Medi 2023 | | | | | | | | | |

Mae'r data yn nhabl 3, uchod, yn nodi'r gyfradd dwf isaf a ddymunir i gyflawni Targed 10 Mlynedd CSCA Casnewydd ar gyfer y garfan Dderbyn. Caiff y boblogaeth darged ei mesur fel canran o'r garfan, ac mae'r niferoedd yn y tabl yn ddangosol yn seiliedig ar amcanestyniadau. Felly, er y gall darpariaeth cyfrwng Saesneg gynyddu, rydym yn dal i ymrwymo i'r un cynnydd cynyddrannol yng nghanran y niferoedd ar draws y sector cyfrwng Cymraeg yn unol â'n CSGA, a bydd y nifer gwirioneddol yn gymesur â maint y garfan flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae targed y CSGA yn ganran o garfan y flwyddyn berthnasol ac nid canran y lleoedd sydd ar gael.
Nodir oherwydd yr oedi wrth adleoli Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, yn codi o'r oedi wrth sicrhau tir i adleoli Ysgol Gynradd Pilgwenlli, y NDC cyfrwng Cymraeg ar gyfer Medi 2024 fydd 142 sy'n is na'r targed disgwyliedig yn y CSGA o 150 o ddisgyblion. Os yw'r Cyngor yn derbyn ceisiadau am fwy na 142 o leoedd Derbyn Cymraeg ar gyfer y flwyddyn hon, bydd swyddogion yn gweithio gyda Phennaeth a Chorff Llywodraethu YG Nant Gwenlli i ystyried sut y gellir darparu lleoedd ychwanegol cyn symud i safle parhaol. Rhaid nodi'n glir bod hyn wedi'i achosi gan yr oedi yn argaeledd adeilad presennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli ac nid y cynlluniau arfaethedig i ehangu Ysgol Gynradd Parc Tredegar. Nid yw'r Cyngor erioed wedi gwrthod cais am ddysgwr sy'n dymuno cael mynediad i addysg CC ac mae wedi ymrwymo i'r agwedd hon. Mae darpariaeth drochi ar gael i'r rheiny sy'n ymuno ag addysg cyfrwng Cymraeg yn hwyr yn y sectorau cynradd ac uwchradd, ac mae bwriad i ehangu'r ddarpariaeth hon pan fydd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn symud i'w lleoliad parhaol.

| | Effaith: | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol | Negyddol | Nid y naill na'r llall | |
| | | | | Mae pedwar is-grŵp sy'n monitro gweithrediad y CSGA ac mae'r grŵp 'Tyfu' sy'n cwmpasu Deilliannau 1 a 2 yn canolbwyntio'n gryf ar hyrwyddo addysg Gymraeg. Yr is-grŵp "Tyfu" sy'n cyfarfod yn dymhorol ac yn cael ei gadeirio gan gynrychiolydd Cymraeg i Blant.<br><br>Mae'r cynnig sy'n cael ei ymgynghori arno yn effeithio ar ysgol cyfrwng Saesneg yn bennaf. Y cynnig yw cynyddu capasiti yn y sector cyfrwng Saesneg er mwyn sicrhau digon o leoedd i fodloni dewis rhieni. Dangosodd Cyfrifiad Disgyblion Ionawr 2023 fod lleoedd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar. Nododd y cyfrifiad hefyd fod 7.2% o'r disgyblion yn ysgolion Casnewydd yr oedd eu cartrefi o fewn dalgylch Parc Tredegar yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn amlwg yn uwch na chyfartaledd Casnewydd o 5.1% o boblogaeth ysgolion cynradd, sy'n awgrymu bod y nifer sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn dda yn yr ardal hon.  Dylid nodi, gan fod Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli newydd agor fel egin ysgol ym mis Medi 2021, bod nifer sylweddol o ddisgyblion yr ardal yn mynychu Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon, sef yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg dalgylch cyn sefydlu Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. Ni fyddai'r cynnydd mewn lleoedd cyfrwng Saesneg yn effeithio'n uniongyrchol ar y sector cyfrwng Cymraeg gan nad oes tystiolaeth o gydberthynas rhwng argaeledd lleoedd cyfrwng Saesneg a nifer y bobl sy'n derbyn lleoedd cyfrwng Cymraeg. Mewn gwirionedd, dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r garfan o ddisgyblion sy'n ymuno â dosbarthiadau Derbyn ar draws Casnewydd wedi mynd yn llai gan arwain at fwy o leoedd heb eu llenwi, ond mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd wedi cynyddu (gweler tabl 4 isod). Mae digon o leoedd yn y sector cyfrwng Cymraeg ac mae disgwyl i hyn barhau pan fydd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn cael ei hadleoli i'w safle parhaol ym Mhilgwenlli fel ysgol sy'n tyfu. |

| | Effaith: | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol | Negyddol | Nid y naill na'r llall | |

| Tabl 4: Carfan Derbyn – cyfanswm/ cyfanswm mewn addysg CC | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y Garfan | Carfan CC | % | Targed CC | % |
| Ionawr 2020 | 1988 | 104 | 5.23 | 112** | 5.63 |
| Ionawr 2021 | 1950 | 113 | 5.79 | 112** | 5.74 |
| Ionawr 2022 | 1963 | 108 | 5.50 | 112** | 5.71 |
| Ionawr 2023 | 1895 | 111 | 5.85 | 116 | 6.1 |
| Medi 2023 | 1947* | 120 | 6.16 | 129 | 6.6 |
| *Amcangyfrif yn seiliedig ar leoedd Derbyn a ddyrannwyd<br>** Targedau CSCA 2017-2020 | | | | | |

Mae Tabl 4 yn dangos nad yw cyfanswm y disgyblion mewn dosbarthiadau Derbyn wedi cynyddu ers Ionawr 2020, ond mae nifer a chyfran y disgyblion yn narpariaeth CC wedi cynyddu'n gyson dros y cyfnod. O'r herwydd, nid oes tystiolaeth sylweddol o gysylltiad rhwng argaeledd lleoedd ysgol cyfrwng Saesneg a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg.

Nodir fodd bynnag, er bod trafnidiaeth am ddim yn cael ei ddarparu i Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yng Nghaerllion, nid yw'r ysgol wedi'i lleoli yn yr ardal leol ar hyn o bryd. Bydd y cynnydd cynyddrannol yng nghapasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar gan 15 lle fesul grŵp blwyddyn, ynghyd â'r cynnig a bennwyd yn flaenorol i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Pilgwenlli gan 12 lle y flwyddyn yn lleihau cyfran y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal leol dros dro gan 0.2% i 4.7%, am flwyddyn, cyn cynyddu i 8.98% yn 2025, fel y dangosir yn Nhabl 1.

Dangosir nifer y lleoedd sydd ar gael, nifer y disgyblion a lleoedd gwag yn ôl categori iaith yng Nghasnewydd yn nhabl 5 isod.

| | Effaith: | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cadarnha | Negyddol | Nid y naill na'r llall | |

| Tabl 5: Cyfrifiad disgyblion Ionawr 2023 - capasiti a lleoedd gwag – Cynradd (D-Bl6) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Capasiti cynradd | % o'r cyfanswm | NAG | % o'r cyfanswm | Lleoedd heb eu llenwi | **% heb eu llenwi** |
| **Cyfrwng Cymraeg** | 859 | 5.62 | 706 | 5.10 | 153 | **17.81** |
| **Cyfrwng Saesneg** | 14,417 | 94.38 | 13,125 | 94.90 | 1,292 | **8.96** |
| Cyfrifiad disgyblion Ionawr 2023 - capasiti a lleoedd gwag – Uwchradd (Bl7-Bl11) | | | | | | |
| | Capasiti uwchradd | % | NAG | % | Lleoedd heb eu llenwi | **% heb eu llenwi** |
| **Cyfrwng Cymraeg** | 870 | 7.01 | 520 | 4.63 | 350 | **40.23** |
| **Cyfrwng Saesneg** | 11,535 | 92.99 | 10,715 | 95.37 | 820 | **7.11** |

Nid yw'r cynnig yn cyfrannu at gynlluniau'r Cyngor ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ledled Casnewydd fel yr amlinellir yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd. Cydnabyddir felly na fydd y cynnig hwn yn cyfrannu at dargedau'r Cyngor o ran Cymraeg 2050.

Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig yn arwain at fwy o swyddi addysgu lle bydd sgiliau Cymraeg yn cael eu rhestru ar y disgrifiad swydd.

1. **Disgrifiwch sut rydych wedi sicrhau bod eich ymgysylltiad wedi ystyried barn siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd ac effaith eich penderfyniad ar y Gymraeg.**

Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a'i rannu gyda phob ysgol gan gynnwys ysgolion Cymraeg Casnewydd. Bydd modd cipio barn siaradwyr Cymraeg gan y bydd yr holl ddogfennaeth ymgynghori yn cael ei chyfieithu a'i dosbarthu a'i rhannu ag unrhyw ysgolion yr effeithir arnynt.

Mae’r dogfennau ymgynghori wedi cael eu rhannu gydag aelodau Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd drwy e-bost dwyieithog.

Mae croeso i'r holl ymatebion gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac ar gais, bydd ymateb yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.

Mae ymatebion i'r ymgynghoriad sy’n cyfeirio at ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu nodi yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau yn benodol ynglŷn â'r effaith ar y Gymraeg.  Dywedodd 9 o'r ymatebwyr eu bod yn credu y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.  Roedd tri o'r ymatebwyr hyn yn erbyn y cynnig ond nid oeddent wedi rhoi unrhyw arwydd pam eu bod yn credu y byddai'n cael effaith negyddol ar y Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae aelod o Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd wedi ymgysylltu â swyddogion y Cyngor ac mae'r deinameg rhwng sicrhau digon o leoedd cyfrwng Saesneg a thwf arfaethedig Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli wedi cael ei ystyried yn fanwl.   Mae Comisiynydd y Gymraeg hefyd wedi cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad sydd wedi'i gynnwys yn llawn fel atodiad i'r adroddiad ar yr ymgynghoriad.

## 3. Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith sy'n helpu sefydliadau i ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol, a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau hirdymor. Isod, ystyriwch sut mae eich penderfyniad yn hyrwyddo, yn datblygu, neu'n gwrth-ddweud y 5 ffordd o weithio sy'n sail i'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gallwch weld canllawiau pellach ar ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy yma.

| | | |
|---|---|---|
| Hirdymor | *Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.* | Mae'r cynnig yn ceisio cynyddu'r capasiti yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar.<br><br>Bydd hyn yn arwain at gapasiti'r ysgol yn cynyddu'n gynyddrannol o 420 i 525 o fis Medi 2024 ymlaen. Dros y 5 mlynedd diwethaf mae nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Parc Tredegar wedi amrywio gyda lefel uchaf o 398 yn 2021/22.<br><br>Yn y dyraniadau Derbyn ar gyfer Medi 2023 dyrannwyd pob un o'r 60 lle a gwrthodwyd nifer fach o geisiadau. Mae'r grŵp blwyddyn felly'n llawn; o bosibl ar gyfer hyd llawn addysg gynradd y garfan.<br><br>Gyda'r ysgol yn gweithredu ar gapasiti o 89% yn 2022/23 oherwydd y derbyniadau dosbarth Derbyn isel ym mis Medi 2022, mae'r rhan fwyaf o'r grwpiau blwyddyn yn agos at y capasiti, gyda llawer ohonynt yn gweithredu gyda lleoedd digid sengl yn weddill ac mae'r rhan fwyaf o'r chwe ysgol cyfrwng Saesneg eraill yng nghlwstwr ysgol John Frost bron wedi cyrraedd capasiti hefyd. Mae angen cynyddu capasiti o fewn yr ardal ac mae ehangu wedi cael ei ystyried ar gyfer pob ysgol o fewn y clwstwr, gydag Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn cael ei nodi fel y mwyaf addas. |
| Atal | *Neilltuo adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu* | Mae'r cynnig yn ceisio cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar o 420 i 525 o leoedd. O fewn y ddogfen 'Arfer presennol ar y defnydd o leoedd ysgol dros ben', mae Llywodraeth Cymru yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | argymell gwarged o 10% o leoedd ysgol. Ym mis Ionawr 2023 roedd gan Ysgol Gynradd Parc Tredegar 372 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan adael 11% o leoedd gwag. Mae hyn yn uwch nag argymhelliad Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ond gyda'r cynnydd mewn datblygiadau tai yn yr ardal gyfagos, mae llawer o'r ysgolion clwstwr yn llawn. Mae proffiliau ward Casnewydd Un yn dangos bod poblogaeth ward Parc Tredegar wedi tyfu'n gyson dros y 10 mlynedd diwethaf ym mhob grŵp oedran. Ar adeg ysgrifennu hwn, mae pob un o'r 60 lle dosbarth Derbyn ar gyfer Medi 2023 yn yr ysgol wedi cael ei ddyrannu. Mae Ysgol Gynradd Parc Tredegar wedi'i nodi fel yr ysgol fwyaf addas sydd â'r gallu i ddarparu ar gyfer ehangu ar raddfa fach i 2.5 dosbarth mynediad gydag ailfodelu/ estyniad. |
| Integreiddio | *Ystyried sut y gall amcanion lles cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.* | Mae ymgynghoriad statudol ffurfiol wedi cael ei gynnal a chafodd ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried effaith y cynnig. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Nodau Lles "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Chymru â chymunedau cydlynol" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Lles eraill. |
| Cydweithio | *Cydweithio i gyflawni amcanion* | Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol gyda'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a chafodd ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith.<br><br>Bydd aelodau'r adran addysg ac Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn cydweithio i gyflawni'r gwaith ehangu. |
| Cyfranogiad | *Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu barn - gan sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.* | Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid (a restrir yn Adran 3) a'r ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt drwy roi gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a chyrchu dogfennau a oedd ar gael ar-lein yn [https://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx](https://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx). Cynhaliwyd sesiynau galw heibio cyhoeddus lle roedd swyddogion y Cyngor wrth law i esbonio'r cynnig ac ateb unrhyw gwestiynau.<br><br>Cynhaliwyd sesiynau Llais y Disgybl yn Ysgol Gynradd Parc Tredegar i gael barn y disgyblion ar y cynigion. Roedd y ddogfen ymgynghori Plant a Phobl Ifanc ar gael ac wedi cael ei dosbarthu i'r disgyblion yn yr ysgol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cafodd trafodaethau eu cynnal hefyd gydag aelod o Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd ynglŷn ag effaith bosibl y cynnig ar y Gymraeg. |

## 4. Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol wedi'i nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor, wrth wneud penderfyniadau strategol, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Teimlir anghydraddoldebau o ran canlyniadau ar eu mwyaf difrifol mewn meysydd fel iechyd, addysg, gwaith, safonau byw, cyfiawnder a diogelwch personol, a chyfranogiad.

Diffinnir 'penderfyniad strategol' gan Lywodraeth Cymru fel penderfyniad **sy'n effeithio ar sut mae'r cyngor yn cyflawni ei ddiben statudol dros gyfnod sylweddol o amser ac nad yw'n cynnwys penderfyniadau 'o ddydd i ddydd' arferol.** Mae penderfyniadau strategol yn cynnwys:

- Cynlluniau Corfforaethol
- Pennu amcanion strategol lles, cydraddoldeb ac amcanion eraill
- Newidiadau i wasanaethau cyhoeddus, neu eu datblygu
- Cynllunio ariannol strategol
- Datblygu polisïau strategol

Os nad ydych yn credu bod eich penderfyniad yn bodloni'r diffiniad hwn, ac nad ydych yn bwriadu cynnal Asesiad Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn yr adran hon, rhowch eich rhesymeg isod. Bydd unrhyw benderfyniad a gyflwynir i Aelod Cabinet, yn y Cabinet neu'r Cyngor, yn cael ei ystyried yn benderfyniad strategol.

| |
|---|
| |

Os yw eich penderfyniad yn bodloni'r diffiniad, ystyriwch effaith eich penderfyniad ar y grwpiau dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a meysydd anghydraddoldeb a allai godi o anfantais economaidd-gymdeithasol a geir yn y matrics isod. Nid yw'r grwpiau a restrir yn gynhwysfawr a dylech ystyried unrhyw grwpiau ychwanegol sy'n berthnasol i'ch penderfyniad a allai brofi anfantais economaidd-gymdeithasol yn y ffyrdd canlynol:

- **Incwm Isel/ Tlodi Incwm** - yn methu fforddio cynnal taliadau rheolaidd fel biliau, bwyd, dillad, trafnidiaeth ac ati.
- **Cyfoeth Isel a/neu ddim Cyfoeth** - digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a thalu biliau ond nid oes ganddynt unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl ac nid oes unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y dyfodol
- **Amddifadedd Materol** - methu â chael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, trwsio/ disodli nwyddau trydanol sydd wedi torri, cartref cynnes, hobïau ac ati)
- **Amddifadedd Ardal** - lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus)
- Cefndir Economaidd-Gymdeithasol – er enghraifft, addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni

Nodwch effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'r ddau lle maent yn gymwys, a difrifoldeb yr effaith hon drwy godio rhannau'r grid yn seiliedig ar yr isod. *Os nad oes effaith/ neu ei fod yn niwtral, gadewch yn wag.*

| **Effaith Negyddol** | | **Effaith Gadarnhaol** | |
|---|---|---|---|
| N1 | Effaith negyddol – ysgafn | P1 | Effaith gadarnhaol – ysgafn |
| N2 | Effaith negyddol – cymedrol | P2 | Effaith gadarnhaol – cymedrol |
| N3 | Effaith negyddol – sylweddol | P3 | Effaith gadarnhaol – sylweddol |
| N4 | Potensial ar gyfer effaith negyddol (ond yn ansicr) | P4 | Potensial ar gyfer effaith gadarnhaol (ond yn ansicr) |

| **Meysydd anghydraddoldeb a allai godi o anfantais economaidd-gymdeithasol – diffiniadau** |
|---|
| **Addysg**: Y gallu i fod yn wybodus, i ddeall a rhesymu, ac i gael y sgiliau a'r cyfle i gymryd rhan yn y farchnad lafur ac mewn cymdeithas |
| **Gwaith:**Y gallu i weithio mewn amodau cyfiawn a ffafriol, i gydnabod gwerth eich gwaith, hyd yn oed os yw'n ddi-dâl, i beidio â chael eich atal rhag gweithio ac i fod yn rhydd o gaethwasiaeth, llafur gorfodol a mathau eraill o gamfanteisio |
| **Safonau Byw:** Y gallu i fwynhau safon byw gyfforddus, mewn tai priodol, gydag annibyniaeth a diogelwch, ac i gael gofal a chefnogaeth pan fo angen. |
| **Cyfiawnder, Diogelwch Personol a Diogelwch Cymunedol**: Y gallu i osgoi marwolaethau cynamserol, byw mewn diogelwch, a gwybod y cewch eich diogelu a'ch trin yn deg gan y gyfraith |
| **Iechyd:** Y gallu i fod yn iach, yn gorfforol ac yn feddyliol, bod yn rhydd mewn materion sy'n ymwneud â pherthnasoedd rhywiol ac atgenhedlu, a chael ymreolaeth dros ofal a thriniaeth a chael gofal yn ystod cyfnodau olaf eich bywyd |
| **Cyfranogiad:** Y gallu i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ac mewn cymunedau, cael mynediad at wasanaethau, gwybod y caiff eich preifatrwydd ei barchu, a mynegi eich hun |

| **Grwpiau** | **Meysydd anghydraddoldeb** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Safonau Byw | Gwaith | Iechyd | Addysg | Cyfiawnder a diogelwch cymunedol | Cyfranogiad | Amgylchedd Ffisegol |
| Plant sy'n byw mewn tlodi | | | P2 | P1 | | P4 | P2 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelwydydd incwm isel heb blant dibynnol | | | | | | | |
| Pobl ifanc ddi-waith | | P4 | | | | | |
| Di-waith am gyfnod hir | | P4 | | | | | |
| Aelwydydd digartref | | | | | | | |
| Ffoaduriaid, mudwyr a cheiswyr lloches | | P4 | | | | | |
| Cymdogaethau difreintiedig - Safle MALIC yn y 10% isaf o’r LSOA mwyaf difreintiedig | | | P2 | P4 | | P2 | P2 |
| Pobl ar Gredyd Cynhwysol / budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm | | | | P4 | | | |
| Oedolion heb gymwysterau neu gymwysterau isel | | | | | | | |
| Pobl sy'n byw mewn tai o ansawdd isel neu mewn Tai Amlfeddiannaeth | | | | P4 | | | |

1. **Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran deilliannau yn ymwneud â'r penderfyniad hwn?**

Fel cynllun 'Addysg', bydd yn lleihau anghydraddoldebau posibl o ran cyfle a chanlyniad mewn addysg drwy gynyddu nifer y lleoedd ysgol yng Nghasnewydd yn gyffredinol, ac yng nghlwstwr Ysgol John Frost yn benodol. Mae lefelau cymharol uchel o anfantais economaidd-gymdeithasol yn nodwedd o’r gymuned leol ac mae'r ysgol wedi cael ei chanmol am y ffordd y mae'n darparu amgylchedd lle gall plant ffynnu a gwneud cynnydd gwirioneddol mewn datblygiad academaidd a phersonol. Mae llawer o'r ysgolion cynradd yng nghlwstwr Ysgol John Frost bron wedi cyrraedd capasiti a bydd ychwanegu mwy o leoedd ysgol yn yr ardal leol yn galluogi plant i aros a dysgu yn eu cymunedau lleol. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar nodau lles Cymru lewyrchus a Chymru fwy cyfartal a'r amcan lles i wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth.

2. **Disgrifiwch sut rydych wedi sicrhau bod eich ymgysylltiad wedi ystyried barn pobl sy'n byw yng Nghasnewydd sy'n cael eu heffeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Roedd y wybodaeth am yr ymgynghori ar gael a chafodd ei rhannu â'r holl grwpiau ar draws Casnewydd. Cafodd fersiynau hawdd eu darllen a fersiynau Cymraeg o'r dogfennau eu cynhyrchu. Roedd y dogfennau hyn ar gael yn ddigidol ac ar ffurf copi caled. Ar glawr tu mewn y dogfennau ymgynghori, darperir rhestr o ieithoedd y gellir cyfieithu'r ddogfen iddynt ar gais. Bydd hyn yn galluogi pobl o bob grŵp i gyrchu'r ymgynghoriad.

**3. A yw'r penderfyniad hwn yn cyfrannu at effaith gronnol?**

| |
|---|
| Oherwydd yr oedi cyn symud Ysgol Nant Gwenlli i Bilgwenlli, a'r cynnydd mewn capasiti yn dilyn hynny, bydd y cynnig hwn yn arwain at ostyngiad dros dro (blwyddyn) yng nghyfran y lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal leol. Fodd bynnag, yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Cyngor yn fodlon bod digon o leoedd cyfrwng Cymraeg ar gael i alluogi twf parhaus drwy'r cyfnod hwn, gyda chefnogaeth y mesurau a ddefnyddir drwy'r strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg. |

# Rhan 3: Camau Gweithredu a Chanlyniadau

O ystyried unrhyw effeithiau negyddol yr ydych wedi'u nodi, nodwch isod sut y byddwch yn lleihau'r rhain, cynyddu'r potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol, a sut y byddwch yn monitro'r effeithiau hynny. Mae rhagor o ganllawiau ar sut i gwblhau eich cynllun gweithredu ar gael yma.

| **EFFAITH AR BOBL SY'N RHANNU NODWEDDION GWARCHODEDIG** | | | |
|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r effaith** | **Gweithredu i leihau effaith negyddol / cyfleoedd i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| **EFFAITH AR Y GYMRAEG** | | | |
| **Crynodeb o'r effaith** | **Gweithredu i leihau effaith negyddol / cyfleoedd i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |
| Gostyngiad dros dro yn y gyfran (nid nifer) o leoedd addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. | Os yw'r Cyngor yn derbyn ceisiadau am fwy na 142 o leoedd Derbyn Cymraeg ar gyfer y flwyddyn hon, bydd swyddogion yn gweithio gyda Phennaeth a Chorff Llywodraethu YG Nant Gwenlli i ystyried sut y gellir darparu lleoedd ychwanegol cyn symud i safle parhaol. Gweler adran 3.2 uchod. | Lleoedd disgyblion sydd ar gael a lleoedd a gymerwyd (NAG), a adroddwyd i Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd a Grŵp Gweithredu'r CSCA gyda chyfrifoldeb am ddeilliant 2. | Pennaeth Addysg Cynorthwyol (Adnoddau a Chynllunio) |
| | | | |
| **EFFEITHIAU ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL** | | | |
| **Crynodeb o'r effaith** | **Gweithredu i leihau effaith negyddol / cyfleoedd i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| **EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY** | | | |
| **Crynodeb o'r effaith** | **Gweithredu i leihau effaith negyddol / cyfleoedd i gynyddu effeithiau cadarnhaol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |
| | | | |
| | | | |

Unwaith y bydd eich AEDCh wedi'i gwblhau, anfonwch ymlaen at nccequality@newport.gov.uk